Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Lawnt
# Surgery Hill
# Rhymney
# NP22 5LS

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 10/07/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Y Lawnt yng nghanol tref Rhymni ar ben uchaf cwm Rhymni. Mae'r ysgol yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg i blant sy'n hanu o nifer o bentrefi i'r gogledd o dref Bargoed, yn ymestyn o Butetown i Deri. Yr awdurdod lleol yw Caerffili.

Ar hyn o bryd, mae 219 disgybl rhwng tair ac unarddeg oed yn mynychu'r ysgol, ffigwr sy'n cynnwys 36 plentyn meithrin rhan-amser. Rhennir y disgyblion yn wyth dosbarth, gyda thri ohonynt yn cynnwys disgyblion ar draws ystod oedran o ddwy flynedd. Daw tua 94 y cant o'r disgyblion o gartrefi lle Saesneg yw'r brif iaith, ac mae tua un y cant o ddisgyblion yn dod o gefndir lleiafrifol ethnig.

Mae 23 y cant o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sydd yn is na chanran yr awdurdod lleol ond ychydig yn uwch na'r canran cenedlaethol. Mae tua 16% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion ychwanegol, sydd yn is na'r ffigwr cenedlaethol. Nid oes unrhyw ddisgybl ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2008. Ers hynny, bu newid sylweddol o ran staff. Penodwyd y Pennaeth a'r Dirprwy presennol i'w swyddi yn nhymor yr haf 2013.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Y Lawnt yn 2013-2014 yw £2,707. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Caerffili yw £5,118 a'r lleiafswm yw £2,645. Mae Ysgol Y Lawnt yn safle 70ain o'r 75 ysgol gynradd yng Nghaerffili o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar agweddau cadarnhaol at waith ac yn gweithio'n gynhyrchiol yn y gwersi;
- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn gwrtais;
- yr ysgol yn gymuned hapus a gofalgar;
- yr addysgu yn gyson dda;
- partneriaethau llwyddiannus sy'n cyfrannu'n effeithiol at godi safonau; a bod
- yr ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o amgylchedd dysgu ysgogol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn meddu ar weledigaeth glir a bod systemau rheolaethol effeithiol i gefnogi hyn;
- yr holl staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm i wella deilliannau'r disgyblion;
- y gweithdrefnau monitro yn defnyddio ystod effeithiol o ffynonellau tystiolaeth, gan gynnwys  arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a dadansoddi data; a bod
- bwriadau'r cynllun datblygu ysgol yn rhoi sylw priodol i godi safonau.

## Argymhellion

A1 Codi lefel yr her i ddisgyblion mwy abl a thalentog

A2 Codi safonau ysgrifennu creadigol y disgyblion yn y ddwy iaith ar draws cyfnod allweddol 2

A3 Gwella presenoldeb

A4 Datblygu dealltwriaeth y llywodraethwyr o'u rôl fel cyfeillion beirniadol er mwyn herio perfformiad yr ysgol yn effeithiol

A5 Cryfhau prosesau hunan arfarnu'r ysgol a gwella ansawdd y cynllun datblygu ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae bron pob disgybl yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus wrth weithio yn y dosbarthiadau ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Ar draws yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwrando'n astud ac yn gallu dilyn cyfarwyddiadau'n gywir. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd Cymraeg. Mae llawer yn ddarllenwyr brwdfrydig ac wrth ddarllen ar goedd, maent yn cymeriadu'n effeithiol gan ddefnyddio ystod o strategaethau darllen pwrpasol yn llwyddiannus.

Mae gallu llawer o'r disgyblion i ysgrifennu'n annibynnol yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r mwyafrif ohonynt yn ysgrifennu darnau estynedig effeithiol. Mae llawer o'r disgyblion gallu uwch yn defnyddio ffurfiau cryno'r ferf yn hyderus ac yn defnyddio cyffelybiaethau gafaelgar yn effeithiol. Enghreifftiau da o hyn ydy'r portreadau ar hanes Santes Dwynwen a'r disgrifiadau o nodweddion ardal Y Rhondda.

Mae mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 2 yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn cymryd diddordeb bywiog yn eu gwaith. Mae medrau llafar y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn medru siarad am eu gwaith yn hyderus a gall llawer ohonynt gyfrannu'n effeithiol tuag at drafodaethau dosbarth. Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Maent yn darllen yn hyderus yn y ddwy iaith, yn rhugl a chyda dealltwriaeth dda. Fodd bynnag, mae medrau darllen ar goedd ychydig o'r disgyblion yn or-fecanyddol, heb fedru newid goslef llais yn effeithiol. Ar y cyfan, mae mwyafrif disgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio'u medrau darllen yn llwyddiannus, er enghraifft i ymchwilio i destunau ar yr Ail Ryfel Byd.

Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gallu ysgrifennu'n gywir mewn gwahanol arddulliau. Maent yn atalnodi'n briodol ac yn gosod eu gwaith yn drefnus mewn paragraffau. Mae safon llawysgrifen y mwyafrif yn dda. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o wahanol arddulliau ysgrifennu fel bywgraffiad, adroddiad papur newydd ac adolygiad ffilm. Fodd bynnag, nid yw medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion uwch eu gallu yn datblygu'n llawn wrth ysgrifennu'n greadigol ac ymestynnol yn y ddwy iaith.

Mae medrau rhifedd disgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen gall y rhan fwyaf o'r disgyblion drafod cysyniadau mathemategol yn hyderus gan egluro sut maent yn cyrraedd yr ateb yn gywir. Gallant ddefnyddio unedau safonol i bwyso, darllen thermomedr a chofnodi tymheredd yn gywir. Mae llawer yn gallu defnyddio'u medrau trin data yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm. Enghraifft dda o hyn yw'r tabl gwybodaeth am eu harcharwyr. Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau mewn rhifedd erbyn diwedd y cyfnod

allweddol yn datblygu'n dda. Gall disgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn pynciau eraill, yn arbennig mewn gwyddoniaeth, hanes a daearyddiaeth. Enghraifft dda o hyn ydy'r defnydd hyderus o ddulliau amalgam wrth ymdrin â chyllidebau mewn gwers hanes.

Mae cyflawniadau'r disgyblion erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn gyffredinol wedi bod yn uwch na pherfformiad ysgolion tebyg o ran y ganran o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim. Dros ddwy flynedd, mae cyflawniad mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Gymraeg, ynghyd â datblygiad mathemategol wedi bod yn y 50% uwch. Fodd bynnag, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, bu perfformiad y disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau uwch wedi bod gan mwyaf yn y 50% is.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel 4 disgwyliedig, o gymharu ag ysgolion tebyg, wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf ond mae'n gyffredinol rhwng y 50% uwch a'r 50% is. Mae'r ganran sy'n cyrraedd y lefelau uwch dros y tair blynedd diwethaf wedi bod yn gyson yn y 50% is, ac mae perfformiad mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yn gyson yn y 25% isaf.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn gwersi. Maent yn gwrando'n dda ac yn gwneud cyfraniadau hyderus yn y gwersi. Maent hefyd yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd.

Mae safon ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol yn uchel ac maent yn gwrtais a chroesawgar iawn tuag at ymwelwyr. Dangosant barch at eraill yn gyson.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor neu i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt. Maent yn deall pwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd er mwyn cadw'n iach. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at fwyta ac yfed yn iach.

Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod dda o ddigwyddiadau cymdeithasol yn y gymuned gan gynnwys diddanu mewn cartref yr henoed. Maent yn codi arian i nifer o elusennau gan gynnwys cefnogi menter Action Aid yn Zimbabwe. Mae hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn effeithiol.

Er bod disgyblion yn mynegi eu barn fel rhan o waith y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, nid yw'r pwyllgorau hyn yn cael digon o effaith ar fywyd a gwaith yr ysgol. Ar hyn o bryd, nid ydy'r disgyblion yn cyfannu'n effeithiol tuag at gynllunio'r themâu sy'n cael eu hastudio.

Bu presenoldeb yn y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran lefelau cinio am ddim mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae prydlondeb wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang sy'n cwrdd yn llawn â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen. Mae rhan fwyaf o'r athrawon yn cynllunio ystod eang o brofiadau bywiog sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Mae'r gweithgareddau hyn yn adeiladu'n llwyddiannus ar brofiadau blaenorol y disgyblion. Mae'r ymweliadau addysgol a'r amrywiaeth o brofiadau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion ac yn hyrwyddo eu dealltwriaeth o ddiwylliant lleol a chenedlaethol.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau ar draws y cwricwlwm yn addas gyda'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael lle mwy amlwg yng ngweithdrefnau cynllunio'r ysgol. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd a roddir i'r disgyblion gallu uwch i ysgrifennu'n greadigol ac ymestynnol yn y ddwy iaith yn anghyson.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn dda. Mae profiadau dysgu'r disgyblion yn cael eu cyfoethogi trwy ymweliadau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gymuned leol a diwylliant Cymru megis Pwll Mawr, Tŷ Tredegar a Gwersyll yr Urdd, Llangrannog.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth briodol o faterion yn ymwneud â datblygiad cynaliadwy trwy weithgareddau fel y clwb garddio, y pwyllgor eco ac ail-gychu papur. Serch hynny, nid yw'r pwyllgor eco eto yn ddigon dylanwadol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu rôl fel dinasyddion byd-eang.

**Addysgu: Da**

Yn gyffredinol, mae ansawdd yr addysgu yn dda ar draws yr ysgol, yn enwedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Mae'r gydberthynas rhwng athrawon a disgyblion ymhob dosbarth yn creu ethos cyfeillgar a gofalgar.

Yn y rhan fwyaf o'r gwersi, mae cyflymder da, arweiniad clir ar gyfer pob gweithgarwch a chyfraniad effeithiol gan y cynorthwywyr dysgu. Manteisia'r holl staff ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion. Mewn ychydig iawn o'r gwersi, nid yw'r gweithgareddau wedi eu gwahaniaethu ddigon er mwyn herio'r dysgwyr mwyaf abl a chynnal a chefnogi'r dysgwyr llai abl. Ar adegau, mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu gallu'r disgyblion i ysgrifennu'n rhydd ac yn ymestynnol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd o ystod briodol o strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Mae'r holl athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn drylwyr. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r athrawon yn rhoi sylwadau adeiladol i ddisgyblion ar sut i wella'u hymdrechion gan ddarparu cyfleoedd iddynt i weithredu ar hyn. Fodd bynnag, nid yw'r arferiad hwn yn gyson ar draws yr ysgol. Mae'r defnydd cyson o feini prawf llwyddiant yn hybu annibyniaeth y disgyblion yn y gwersi ac yn eu cynorthwyo i wybod sut i wella eu gwaith. Nid ydy'r system o osod targedau unigol i ddisgyblion dros dymor neu fwy yn ymateb yn ddigon sydyn i gynnydd disgyblion yn y tymor byr.

Mae'r ysgol yn defnyddio system effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion, sy'n cael effaith gadarnhaol ar y cynllunio ac ar dargedu disgyblion ar gyfer rhaglenni ymyrraeth priodol.

Mae'r adroddiadau ysgrifenedig i rieni ar gynnydd eu plant yn bodloni'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel i'w disgyblion. Mae'r staff yn defnyddio strategaethau a rhaglenni effeithiol i gefnogi anghenion disgyblion, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Yn ogystal, mae'r sesiynau cyd-addoli a rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn cyfrannu'n effeithiol i'r meysydd hyn. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag ystod o wasanaethau allanol ac yn defnyddio'u cyngor yn effeithiol er mwyn cefnogi'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r clybiau garddio a choginio yn addysgu'r disgyblion yn effeithiol am dyfu a gofalu ar ôl cynnyrch a sut i baratoi bwyd maethlon, gan bwysleisio hylendid a diogelwch.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn adnabod anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion yn glir ac yn gynnar. Trwy arsylwi cyson, cyd drafod â rhieni a chynnal asesiadau ffurfiol ac anffurfiol mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth gadarn i'r disgyblion hyn. Mae tîm anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol yn cynnig cymorth da ac yn gwneud defnydd adeiladol o ystod o strategaethau ymyrraeth i gynorthwyo grwpiau gwahanol o ddisgyblion mewn sesiynau cefnogi pwrpasol. Caiff cynnydd disgyblion anghenion dysgu ychwanegol ei adolygu'n rheolaidd ac mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am gynnydd eu plant.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Y Lawnt yn gymuned hapus a chroesawgar lle caiff pob plentyn ei werthfawrogi'n llawn. Mae yma ethos gynhwysol sy'n cynnig mynediad llawn at y cwricwlwm i bob disgybl. Mae polisïau a gweithdrefnau effeithiol mewn lle er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i bob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r disgyblion a'r staff yn dangos parch at ei gilydd ac mae disgyblion yn dangos lefelau uchel o gwrteisi wrth symud o gwmpas yr ysgol.

Er bod yr adeilad yn hen, mae rheolwyr yr ysgol wedi buddsoddi yn helaeth i'w addurno a'i addasu i fod yn ddeniadol ac yn briodol ar gyfer y disgyblion. Mae'r arddangosfeydd o gwmpas yr ysgol yn creu awyrgylch lliwgar ac amrywiol sy'n meithrin balchder y disgyblion yn eu gwaith.

Mae'r defnydd effeithiol o'r adnoddau allanol yn cynnig ystod eang o brofiadau cyfoethog i'r disgyblion. Mae'r disgyblion yn elwa ar amrywiaeth da o brofiadau awyr agored. Mae'r ardaloedd coediog, y gerddi llysiau a'r ardal ddringo yn adnoddau

gwerthfawr sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion. Er enghraifft, mae'r clwb coginio yn defnyddio cynnyrch o'r ardd lysiau mewn nifer o ryseitiau iachus.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sydd yn seiliedig ar barch, sicrhau safonau uchel, hapusrwydd a lles y disgyblion. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn cyfleu disgwyliadau uchel ar gyfer sicrhau gwelliant ac yn herio staff yn gadarnhaol ac yn effeithiol. Maent yn defnyddio data i fonitro perfformiad yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn gymuned drefnus lle mae cydweithredu da ac mae strwythurau a pholisïau clir yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at wireddu ei hamcanion. Mae swydd ddisgrifiadau'r staff yn glir ac mae'r holl staff yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae gweithredu gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi cael effaith cadarnhaol ar safonau, yn enwedig medrau darllen yn y Gymraeg. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac wedi gweithredu'n effeithiol dros gyfnod o ansefydlogrwydd diweddar. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae rhai llywodraethwyr yn ymwelwyr cyson er mwyn gwella eu dealltwriaeth o fywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad i gyflwyniadau ac adroddiadau cyson gan y pennaeth, maent yn ymwybodol o berfformiad disgyblion a'u cyrhaeddiad. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae gallu'r llywodraethwyr i herio perfformiad yr ysgol yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau monitro a hunanarfarnu priodol sy'n seiliedig ar godi safonau. Mae'r rhain yn cynnwys arfarnu a monitro trylwyr gan staff. Maent yn dadansoddi data ar safonau a monitro ansawdd addysgu yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau newydd hyn wedi cael amser i'w gwreiddio'n llwyr. Mae gan yr ysgol adnabyddiaeth dda o'i chryfderau, ond nid yw hi wedi adnabod gystal y mannau i'w datblygu.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i farn y staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni yn y broses o hunanarfarnu. Mae'r cydlynwyr yn hel tystiolaeth o fonitro gwersi, craffu ar waith disgyblion a dadansoddi data yn effeithiol. Maent yn cyfrannu'n dda tuag at y broses hon drwy greu adroddiadau am ansawdd y ddarpariaeth a safonau disgyblion. Maent yn rhannu'r rhain mewn cyfarfodydd staff a hefyd wrth adrodd yn ôl i'r llywodraethwyr.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu mwyaf diweddar yn ddogfen addas sy'n gwneud

defnydd cyson o ddadansoddiadau data a thystiolaeth yn deillio o arsylwadau gwersi. Fodd bynnag, mae'r ddogfen yn rhy ddisgrifiadol mewn mannau, ac nid yw'n rhoi darlun digon clir o'r agweddau hynny sydd angen eu gwella o ran y ddarpariaeth a'r addysgu.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn canolbwyntio'n briodol ar godi safonau. Mae wedi ei gostio'n ofalus ac mae'r amserlen weithredu a chyfrifoldeb staff yn glir. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oes cyswllt digon agos rhwng deilliannau'r weithdrefn hunan arfarnu â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Nid yw'r cynllun yn cynnwys dangosyddion llwyddiant meintiol nac yn cynnwys trefniadau manwl i fonitro'r cynnydd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod eang o bartneriaethau.

Mae perthynas dda yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r ysgol wedi darparu nosweithiau cwricwlaidd i'r rhieni er mwyn rhannu gwybodaeth am ddarllen a rhifedd er mwyn iddynt gefnogi eu plant yn y cartref.

Mae partneriaeth dda rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Mae disgyblion yr ysgol yn ymweld yn gyson â'r capel a'r eglwys gyfagos i gynnal cyngherddau. Maent hefyd yn diddanu'r henoed lleol drwy gyngherddau achlysurol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf gyda'r ysgol uwchradd leol ac mae trefniadau da iawn i sicrhau lles disgyblion wrth drosglwyddo. Mae'r rhaglen drosglwyddo effeithiol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 yn cynnwys sesiwn addysgu wythnosol gan athro o'r ysgol uwchradd. Mae hyn yn sicrhau bod gan yr ysgol uwchradd adnabyddiaeth dda o'r disgyblion cyn iddynt drosglwyddo.

Mae amserlen o ymweliadau i blant yr Ysgol Feithrin ymweld â dosbarth meithrin yr ysgol yn sicrhau eu bod yn ymgartrefu'n fuan wrth ddechrau'r ysgol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion cynradd y dalgylch i rannu arfer dda mewn agweddau megis llythrennedd er mwyn codi safonau darllen. Mae'r cydweithio effeithiol i gyd-safoni a chymedroli lefelau gwaith disgyblion yn datblygu arbenigedd a hyder athrawon yn effeithiol.

Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau da gydag asiantaethau allanol a diwydiant lleol gan gynnwys cwmni ailgylchu deunyddiau plastig. Mae hyn yn cael effaith bositif ar les a chyrhaeddiad disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol er mwyn sicrhau bod gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm cenedlaethol yn cael eu cyflwyno'n llawn. Mae'r ysgol yn defnyddio cynorthwywyr dosbarth yn effeithiol iawn. Maent yn rhoi cefnogaeth werthfawr i unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen i gefnogi'r disgyblion i ddatblygu'r iaith Gymraeg.

Mae'r holl staff yn cael eu datblygu'n broffesiynol drwy'r broses reoli perfformiad

trylwyr.  Mae’r staff sy’n mynychu hyfforddiant yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol gyda gweddill y staff mewn cyfarfodydd staff.  Mae rhwydwaith broffesiynol effeithiol wedi ei sefydlu gyda'r ysgol uwchradd leol i ddatblygu medrau darllen a mathemateg ac mae ei heffaith i’w gweld ar ddeilliannau disgyblion.

Mae’r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol baich gwaith athrawon.  Mae athrawon yn defnyddio eu hamser digyswllt yn effeithiol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu a hefyd i arsylwi ar ei gilydd a rhannu arfer dda.

O ystyried safonau cyflawniad, mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2013, roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd y dangosydd Cyfnod Sylfaen yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru. Roedd y cyfran a gyflawnodd y deilliant ddisgwyliedig (deilliant 5) mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol yn uwch na chyfartaleddau'r teulu ond yn is na chyfartaledd Cymru. Roedd y gyfran a gyflawnodd y deilliant ddisgwyliedig mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Gymraeg ac mewn datblygiad mathemategol yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a chyfartaleddau Cymru. Fodd bynnag, bu gostyngiad bach mewn bron pob dangosydd rhwng 2012 a 2013.

Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd yn uwch na'r deilliant ddisgwyliedig (deilliant 6) mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Gymraeg, datblygiad mathemategol ynghyd â datblygiad personol a cymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru yn 2013.

Roedd perfformiad y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar y deilliant disgwyliedig yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i brydiau ysgol am ddim o ran y dangosydd Cyfnod Sylfaen, iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Gymraeg a datblygiad mathemategol. Roedd perfformiad yr ysgol mewn datblygiad personol a cymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol yn y 25% isaf yn 2013. Ar gyfer y deilliannau uwch, mae mae perfformiad dros y ddwy flynedd diwethaf wedi gosod yr ysgol yn gyffredinol yn y 50% is a'r 25% isaf.

Dros gyfnod, mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd y dangosydd pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2 wedi amrywio, ond yn dangos cynnydd dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn 2013, roedd y ganran a gyflawnodd y dangosydd pynciau craidd yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Yn 2013, roedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefelau disgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Roedd y lefel gyrhaeddiad mewn gwyddoniaeth yn uwch na'r teulu ac yn hafal â chyfartaledd gweddill ysgolion Cymru. Roedd y ganran sy'n cyflawni'n uwch na'r lefelau disgwyliedig yn 2013 mewn Cymraeg yn uwch na chyfartaledd y teulu ond yn is na Chymru. Roedd y ganran sy'n cyflawni'n uwch na'r lefelau disgwyliedig yn 2013 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru.

Roedd canlyniadau'r ysgol yn 2013 ar gyfer y canran sy'n cyflawni'r lefelau disgwyliedig, sef lefel 4 neu uwch, o gymharu ag ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch ar gyfer y dangosydd pynciau craidd. Dros bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio rhwng y 25% uwch a'r 50% is. Yn 2013, roedd perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg a mathemateg yn y 50% uwch gyda'r canlyniadau mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn y 50% is. Ar gyfer y disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau uwch, sef lefel 5 ac uwch, dros y pedair blynedd diwethaf mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf. Fodd bynnag, mae cyrhaeddiad dros y tair

blynedd diwethaf yn gyson yn y 50% is a’r 25% isaf.  Roedd canlyniadau’r ysgol yn 2013 ar gyfer y disgyblion sy’n cyflawni’n uwch na’r lefel disgwyliedig o gymharu ag ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch ar gyfer Cymraeg, yn y 50% is ar gyfer Saesneg ac yn y 25% isaf ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth.

Nid oes patrwm cyson yng nghyflawniad y bechgyn a’r merched dros gyfnod er i’r bechgyn berfformio’n well na’r merched yn y ddwy flynedd ddiwethaf.  Yn yr un modd, nid oes patrymau cyson mewn perfformiad disgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim dros gyfnod o bum mlynedd.  Fodd bynnag, roedd bwlch sylweddol ym mherfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill yr ysgol yn 2013.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 89 | 84<br>94%<br>98% | 5<br>6%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 87 | 77<br>89%<br>92% | 10<br>11%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 91 | 88<br>97%<br>97% | 3<br>3%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 91 | 86<br>95%<br>97% | 5<br>5%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 89 | 84<br>94%<br>96% | 5<br>6%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 85 | 78<br>92%<br>96% | 7<br>8%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 91 | 90<br>99%<br>99% | 1<br>1%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 90 | 85<br>94%<br>98% | 5<br>6%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 90 | 82<br>91%<br>91% | 8<br>9%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 91 | 88<br>97%<br>95% | 3<br>3%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 84 | 62<br>74%<br>77% | 22<br>26%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 85 | 61<br>72%<br>84% | 24<br>28%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 46 | 27 | 17 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 59% | 37% | 4% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 46 | 32 | 13 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 70% | 28% | 2% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 46 | 32 | 13 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 70% | 28% | 2% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 46 | 29 | 17 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 63% | 37% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 46 | 22 | 15 | 6 | 0 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 48% | 33% | 13% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 45 | 29 | 13 | 3 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 64% | 29% | 7% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 46 | 32 | 14 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 45 | 28 | 12 | 3 | 0 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 62% | 27% | 7% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 43 | 27 | 13 | 3 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 63% | 30% | 7% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 45 | 27 | 15 | 2 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 60% | 33% | 4% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 46 | 27 | 16 | 3 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 59% | 35% | 7% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 45 | 24 | 15 | 3 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 53% | 33% | 7% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 45 | 27<br>60% | 16<br>36% | 1<br>2% | 1<br>2% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 45 | 30<br>67% | 12<br>27% | 1<br>2% | 2<br>4% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 45 | 25<br>56% | 10<br>22% | 5<br>11% | 2<br>4% | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 44 | 27<br>61% | 15<br>34% | 1<br>2% | 1<br>2% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 43 | 23<br>53% | 9<br>21% | 4<br>9% | 0<br>0% | 7 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 45 | 28<br>62% | 11<br>24% | 5<br>11% | 1<br>2% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 45 | 29<br>64% | 12<br>27% | 1<br>2% | 3<br>7% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Robert Jenkins | Arolygydd Cofnodol |
| Buddug Bates | Arolygydd Tîm |
| Ann Jones | Arolygydd Tîm |
| Deris Williams | Arolygydd Lleyg |
| Robert Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Sharon Davies | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.